Estyn

estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Effaith y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (Teach First) yng Nghymru

Chwefror 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon ebost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **3** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Pa mor dda yw’r safonau a gyflawnir gan y cyfranogwyr?** | **6** |
| Cynnydd yn erbyn y safonau ar gyfer statws athro cymwysedig | 6 |
| Safonau | 6 |
| Lles | 8 |
| Cyrchfannau | 9 |
| **Pa mor dda yw’r hyfforddiant a’r asesu yn y rhaglen yn y brifysgol?** | **10** |
| **Pa mor dda yw’r hyfforddiant a’r asesu yn y rhaglen mewn ysgolion?** | **13** |
| **Beth yw’r effaith ar yr ysgol, yr adran a’r disgyblion?** | **14** |
| **Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth y Rhaglen RhHYR?** | **16** |
| Cyfathrebu | 16 |
| Hyfforddi a datblygu mentoriaid | 16 |
| Hunanarfarnu | 17 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **19** |
| **Atodiad 2: Rhaglen Teach First Cymru** | **20** |
| **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | **23** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor am effeithiolrwydd y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR) yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog i Estyn. Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac arweinwyr a staff y RhHYR yng Nghymru a'u hysgolion partneriaeth. Gallai fod o ddiddordeb ehangach i gyfranogwyr hefyd (hynny yw, hyfforddeion ar y rhaglen Teach First), i arweinwyr a staff sy'n gweithio mewn ysgolion, ac i'r rheiny sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant i athrawon. Mae'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a nodwyd yn Atodiad 1.

## Cefndir

### Y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion yng Nghymru

Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lwybr newydd yn seiliedig ar gyflogaeth i addysgu, o'r enw'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR), yn ychwanegol i'r Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG). Mae'r RhHYR yn wahanol i'r RhAG gan fod yn rhaid i gyfranogwyr RhHYR fod yn ymgeiswyr graddedig 'o safon uchel' i'r proffesiwn sydd fel arfer yn cael eu lleoli mewn ysgolion uwchradd mewn ardaloedd economaidd difreintiedig.

### Teach First

Dechreuodd Teach First fel elusen addysg yn Lloegr gyda gweledigaeth na ddylai llwyddiant addysgol yr un plentyn gael ei gyfyngu gan ei gefndir economaidd gymdeithasol. Lansiwyd 'Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth' dwy flynedd ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn Lloegr yn 2002, fel llwybr yn seiliedig ar gyflogaeth i addysgu. Mae cyfranogwyr yn ymuno â Teach First a'u partneriaid prifysgol am chwe wythnos o hyfforddiant dwys cyn addysgu mewn ysgol mewn cymuned incwm isel am ddwy flynedd. Ar ôl Blwyddyn 1 y rhaglen, mae cyfranogwyr llwyddiannus yn cael tystysgrif ôl-radd mewn addysg (TAR) a Statws Athro Cymwysedig (SAC). Caiff cyfranogwyr Teach First eu cyflogi gan yr ysgol ar y raddfa gyflog i athrawon heb gymhwyso nes eu bod yn cyflawni SAC, ac ar ôl hynny, cânt eu talu fel athrawon. Yn ystod y rhaglen ddwy flynedd, cânt eu cynorthwyo gan diwtoriaid prifysgol, mentoriaid ysgol a Swyddogion Datblygu Arweinyddiaeth Teach First. Yn Lloegr, mae Teach First wedi ei drefnu yn ôl 10 rhanbarth, y mae gan bob un gyfarwyddwr lleol.

### Teach First Cymru

Yn 2013, dyfarnwyd contract gan Lywodraeth Cymru i Teach First i gynnal RhHYR peilot am dair blynedd yng Nghymru. Sefydlwyd Teach First Cymru gan Teach First i gynnal y RhHYR mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCDDS).

Mae PCDDS yn darparu hyfforddiant cychwynnol i athrawon trwy Ganolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru (SWWCTE). Mae hyfforddiant cychwynnol i athrawon

yn y ganolfan wedi ei seilio ar ddarpariaeth sefydledig mewn dwy gyn brifysgol partner, sef Coleg y Drindod a Phrifysgol Metropolitan Abertawe.

Fel rhan o'r RhHYR, mae PCDDS yn darparu llawer o'r hyfforddiant parhaus tuag at y cymhwyster TAR sy'n cael ei ddyfarnu ar ôl blwyddyn o brofiad addysgu. Mae'r rhaglen yn dechrau â chyfnod paratoi 'ysgol haf' o chwe wythnos ar gyfer y profiad ysgol cyntaf, sy'n cynnwys pedair wythnos o hyfforddiant yn PCDDS, wedi ei ddilyn gan ddwy wythnos pan fydd y cyfranogwyr o Gymru yn ymuno â chyfranogwyr Teach First o Loegr (gweler Atodiad 2).

Ym mlynyddoedd un a dau y rhaglen, bu cyfranogwyr yn gweithio mewn adrannau Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac ieithoedd tramor modern mewn 31 ysgol ar draws deg awdurdod lleol yn Ne Cymru. Ym mlwyddyn tri, estynnwyd y rhaglen i ysgolion yng ngogledd Cymru.

Yn 2015, ymestynnwyd y cyfnod peilot am flwyddyn academaidd arall (2016-2017) gan Lywodraeth Cymru, gyda tharged i dderbyn 30 o gyfranogwyr.

**Recriwtio a dethol**

Cafodd y targedau ar gyfer recriwtio ar y rhaglen ar gyfer y cyfnod peilot tair blynedd eu gosod gan Lywodraeth Cymru, sef 40, 50 a 60 o raddedigion yn y drefn honno. Yn 2013, recriwtiwyd 29 o raddedigion yn y garfan gyntaf, recriwtiwyd 37 o raddedigion yn yr ail garfan yn 2014, ac, yn 2015, recriwtiwyd 58 o raddedigion yn y drydedd garfan.

Mae Teach First yn recriwtio cyfranogwyr mewn canolfan recriwtio yng nghanol y DU lle mae ymgeiswyr yn ymgymryd â chyfres o dasgau. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn wyth cymhwysedd craidd, sef:

- Arweinyddiaeth
- Gwyleidd-dra, parch ac empathi
- Cadernid
- Rhyngweithio
- Datrys problemau
- Cynllunio a threfniadaeth
- Gwybodaeth
- Hunanarfarnu

Cynigir lle amodol ar y rhaglen i ymgeiswyr llwyddiannus. Mae hyn yn amodol ar wirio eu cymwysterau, asesiadau mewn llythrennedd a rhifedd, ac asesiad o wybodaeth yr ymgeisydd am y pwnc y maent yn hyfforddi i'w addysgu. Mae cam terfynol y broses recriwtio yn cynnwys gwaith paratoi, gan gynnwys gwaith ar gyfer arsylwi am wythnos mewn ysgol a chwblhau hyfforddiant ysgol haf chwe wythnos yn llwyddiannus.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae tua hanner cyfranogwyr y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR) yn cyflawni safonau da, ac mae rhai ohonynt yn cyflawni safonau rhagorol. Mae llawer o gyfranogwyr yn gwneud cynnydd da yn eu haddysgu, ond nid yw digon ohonynt yn cyflawni eu potensial i fod yn athrawon rhagorol. Nid yw rhai cyfranogwyr yn cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ac nid ydynt yn cyflawni Statws Athro Cymwysedig (SAC).

2 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dangos gwerthoedd ac agweddau proffesiynol da iawn ac yn sefydlu perthnasoedd effeithiol gydag athrawon a disgyblion. Maent yn llawn cymhelliant i wella eu haddysgu, yn fyfyriol ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr rhwng theori addysgol ac arfer yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, defnyddiant eu hymchwil i fynd i'r afael â thlodi mewn ysgolion i nodi dulliau i gynorthwyo disgyblion dan anfantais.

3 Mae llawer o gyfranogwyr yn gosod disgwyliadau uchel iawn iddyn nhw eu hunain. Mewn lleiafrif o achosion, caiff cyfranogwyr anawsterau yn rheoli terfynau amser ar gyfer cynllunio gwersi ac ar gyfer aseiniadau, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles.

4 Mae gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr wybodaeth bwnc dda, ac mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn cynllunio gwersi'n drylwyr. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu sy'n aml yn arloesol. Fodd bynnag, nid yw tua hanner y cyfranogwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon gofalus i'r ffordd orau o addysgu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o ran eu pwnc.

5 Roedd llawer o'r cyfranogwyr a gyflawnodd SAC mewn swyddi addysgu o hyd ym Medi 2015, ddwy flynedd ar ôl dechrau'r rhaglen RhHYR, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n addysgu yng Nghymru.

6 Mae'r hyfforddiant yn y brifysgol ('ysgol haf') yn rhoi ystod eang o brofiadau defnyddiol i gyfranogwyr ddechrau datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu. Mae aseiniadau ysgrifenedig yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i gyfranogwyr archwilio theori addysgol a chreu cysylltiadau defnyddiol â'u haddysgu. Yn gyffredinol, mae marcio tiwtoriaid yn rhoi adborth ffurfiannol buddiol i gyfranogwyr.

7 Yn yr hyfforddiant yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn cynorthwyo cyfranogwyr i fod yn greadigol yn eu cynllunio. Fodd bynnag, mae tua hanner y mentoriaid yn rhoi adborth i gyfranogwyr ar eu haddysgu sy'n rhy hael neu'n rhy arwynebol ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi i fesur addysgu llwyddiannus. Nid yw'r mentoriaid hyn yn darparu targedau digon heriol ar gyfer cyfranogwyr ac mae hyn yn cyfyngu ar allu cyfranogwyr i gyflawni'n well.

8 Mewn rhai ysgolion, nid oes gan adrannau pwnc y capasiti i gynorthwyo cyfranogwyr yn effeithiol. Yn yr adrannau gwannach hyn, nid yw mentoriaid yn monitro gwaith disgyblion yn ddigon gofalus. Gan nad ydynt yn nodi gwendidau yn eu harfer eu hunain, ni allant wella agweddau ar addysgu'r cyfranogwyr.

9 Mae cyfranogwyr yn gweld yr ychydig wythnosau cyntaf yn eu hysgolion yn heriol iawn. Mae gormod o amrywioldeb ym mhrofiadau cyntaf cyfranogwyr o addysgu yn eu hysgolion lleoli, ac mae hyn yn golygu nad yw cyfranogwyr yn gwneud digon o gynnydd yn y tymor cyntaf o addysgu. Mae rhai ysgolion wedi datblygu dulliau mentora sy'n cynorthwyo cyfranogwyr yn dda yn ystod yr wythnosau cyntaf wedi iddynt ddechrau ar eu swydd, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder, cynnydd a lles cyfranogwyr.

10 Dywed mwyafrif o ysgolion fod y cyfranogwyr wedi dod â syniadau newydd i'r adran y maent yn gweithio ynddi. Dywed lleiafrif o ysgolion fod eu cyfranogwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a pherfformiad rhai grwpiau bach o ddisgyblion yn y dosbarthiadau y maent yn eu haddysgu. Mae rhai adrannau wedi gweld bod cyfranogwyr yn herio arfer sefydledig ac yn dod â syniadau newydd i addysgu a chynlluniau gwaith.

11 Mewn mwyafrif o adrannau, lle mae cyfranogwyr wedi addysgu am ddwy flynedd, mae perfformiad disgyblion mewn TGAU wedi gwella. Fodd bynnag, mae'n anodd priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i bartneriaeth yr ysgol â'r rhaglen RhHYR. Nid yw'r dystiolaeth yn ddigon trylwyr i ddangos bod y rhaglen RhHYR wedi cael effaith gadarnhaol ar ysgolion, adrannau na disgyblion.

12 Mae arweinwyr y rhaglen wedi casglu ystod eang o dystiolaeth i lywio prosesau hunanarfarnu, gan gynnwys barn cyfranogwyr ac ysgolion partner. Mae arweinwyr y rhaglen wedi gwella cyfathrebu ag ysgolion, ac wedi datblygu tîm y rhaglen, cynnwys y rhaglen, a hyfforddiant ac arweiniad i fentoriaid yn dda. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu yn canolbwyntio'n ddigon da ar hyfforddiant yn yr ysgol, ac mae hyn wedi cyfyngu ar wella asesu mentoriaid. Mae ysgolion yn ansicr ynglŷn â sut i arfarnu effaith y rhaglen RhHYR ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio strategaethau cynaliadwy i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

**I gryfhau'r RhHYR a llwybrau eraill i addysgu, dylai Llywodraeth Cymru:**

A1 Sicrhau bod darparwyr hyfforddiant i athrawon yn helpu hyfforddeion i ddatblygu'r addysgeg fwyaf effeithiol ar gyfer eu pwnc a'u sector

A2 Ystyried strategaethau i wella ansawdd y mentora mewn ysgolion, i alluogi athrawon dan hyfforddiant i wneud cynnydd da a chyflawni eu potensial

A3 Sicrhau bod pob rhaglen ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant yn effeithiol yn ystod wythnosau cyntaf yr addysgu

A4 Gwella casglu data mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon i arfarnu effeithiolrwydd rhaglenni hyfforddi

## Pa mor dda yw'r safonau a gyflawnir gan y cyfranogwyr?

### Cynnydd yn erbyn y safonau ar gyfer statws athro cymwysedig

13 Mae'r tabl isod yn dangos llwyddiant cyfranogwyr o ran cwblhau blwyddyn gyntaf eu rhaglen, ac o ran cael SAC wedi ei ddyfarnu iddynt yn 2014 a 2015 yng Nghymru.

| | **Teach First Cymru (blwyddyn academaidd 2013-2014)** | **%** | **Teach First Cymru (blwyddyn academaidd 2014-2015)** | **%** |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y cyfranogwyr a gafodd eu recriwtio i'r rhaglen** | 29 | | 37 | |
| Nifer y cyfranogwyr y dyfarnwyd SAC iddynt | 25 | 86.2% | 31 | 83.8% |
| Nifer y cyfranogwyr a dynnodd yn ôl o'r rhaglen | * | * | 6 | 16.2% |
| Nifer y cyfranogwyr a fethodd y rhaglen | * | * | * | * |
| Nifer y cyfranogwyr a ohiriodd o'r rhaglen | * | * | * | * |

Ffynhonnell: Cyngor y Gweithlu Addysg, 2015, heb ei chyhoeddi.

* data na ellir ei roi am resymau cyfrinachedd
** hynny yw, y nifer a gwblhaodd yr hyfforddiant ysgol haf yn llwyddiannus ac a ddechreuodd addysgu mewn ysgol ym Medi.

14 Yn 2013-2014, roedd canran y cyfranogwyr a enillodd SAC ychydig islaw canran yr hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a oedd yn dilyn llwybrau yn y brifysgol yng Nghymru. Yn 2014-2015, methodd cyfran fwy o gyfranogwyr gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus nag yn 2013-2014, ac roedd canran y cyfranogwyr a enillodd SAC yn is na chanran y rhai sy'n dilyn rhaglenni TAR uwchradd yng Nghymru (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru, Gwybodaeth Ystadegol 2012-2013).

### Safonau

15 Mae tua hanner y cyfranogwyr a recriwtiwyd yn cyflawni safonau sy'n dda neu'n well. O'r rhain, mae rhai yn cyflawni safonau rhagorol. Dros ddwy flynedd y rhaglen, mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn gwneud cynnydd da o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o addysgu a dysgu. Mae llawer o gyfranogwyr yn gwneud cynnydd da yn eu medrau addysgu, er nad oes digon o gyfranogwyr yn cyflawni eu potensial i fod yn athrawon rhagorol, o ystyried eu mannau cychwyn.

16 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dangos nodweddion personol a phroffesiynol da. Maent wedi eu cymell yn dda yn eu huchelgais i fod yn athrawon rhagorol a gwella

deilliannau disgyblion dan anfantais. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn hynod gymwys, ac mae llawer ohonynt yn ymgysylltu'n dda â'r hyfforddiant ysgol haf, gan ddefnyddio dull deallus a beirniadol ar gyfer y profiadau dysgu a gynigir iddynt. Yn ystod hyfforddiant yr haf, mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i archwilio syniadau a dulliau addysgu. Maent yn ffurfio rhwydweithiau cadarnhaol gyda'u cyfoedion a'u tiwtoriaid, sy'n eu helpu i wrthsefyll heriau eu blwyddyn gyntaf.

17 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi ymrwymo i wella eu haddysgu ac maent yn gweithredu'n ddiwyd yn unol â chyngor ac arweiniad gan eu tiwtoriaid a'u mentoriaid. Mae llawer o gyfranogwyr yn ffurfio perthynas dda â staff a disgyblion.

18 Mae llawer o gyfranogwyr yn datblygu eu medrau myfyriol yn dda. Maent yn arfarnu eu gwersi'n ofalus ac yn gwneud cysylltiadau ystyriol rhwng arfer yn yr ystafell ddosbarth a theori addysg.

19 Mae gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr wybodaeth dda am y pwnc y maent yn hyfforddi i'w addysgu. Mae rhai cyfranogwyr yn addysgu y tu allan i faes pwnc eu gradd, ac mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr hyn yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu gwybodaeth bwnc.

20 Mae llawer o gyfranogwyr yn ymdrechu i ddod i adnabod eu disgyblion yn dda. Mae rhai ohonynt yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion penodol disgyblion, er enghraifft y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn trefnu'r dysgu i wneud yn siŵr bod y disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

21 Mae bron pob un o'r cyfranogwyr yn paratoi a chynllunio'n drylwyr ar gyfer gwersi. Maent yn strwythuro eu gwersi'n dda i greu amgylchedd gweithio cynhyrchiol. Mae llawer o gyfranogwyr yn cynllunio ar gyfer gwahanol alluoedd y disgyblion yn eu dosbarthiadau. Maent yn gosod heriau gwahaniaethol ar gyfer eu disgyblion, er nad yw'r gweithgareddau hyn bob amser yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da gan nad yw'r cyfranogwyr yn addysgu'r disgyblion ynglŷn â'r cyfan y mae angen iddynt ei wybod a'i wneud i lwyddo.

22 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu, ac mae llawer ohonynt yn arloesol yn eu dulliau i addysgu syniadau newydd neu anodd i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o gyfranogwyr yn esbonio cysyniadau allweddol mewn ffordd sy'n cynorthwyo dealltwriaeth disgyblion neu'n delio â chamsyniadau disgyblion yn ddigon da. O bryd i'w gilydd, mae eu haddysgu yn rhy ddychmygus, ar draul defnyddio ffyrdd mwy effeithiol o addysgu, ac mae hyn yn cyfyngu ar ddysgu'r disgyblion. Nid yw lleiafrif o gyfranogwyr yn nodi nodau dysgu penodol ar gyfer eu disgyblion, ac nid ydynt yn dewis y dulliau addysgu a dysgu mwyaf priodol.

23 Mae gan rai cyfranogwyr fedrau addysgu rhagorol. Maent yn herio syniadau disgyblion ac yn defnyddio strategaethau sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd rhagorol.

24 Mae llawer o gyfranogwyr yn defnyddio holi'n dda i ennyn diddordeb dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid ydynt yn holi mewn ffordd sy'n procio neu'n

ymestyn dealltwriaeth disgyblion neu'n cadarnhau amgyffrediad disgyblion o bwyntiau dysgu allweddol. Nid yw lleiafrif o gyfranogwyr yn datblygu syniadau disgyblion yn ddigon da.

25 Mae llawer o gyfranogwyr yn datblygu ystod ddefnyddiol o strategaethau i annog ymddygiad da ymhlith disgyblion. Mae lleiafrif o gyfranogwyr yn gwneud cynnydd araf o ran gallu defnyddio technegau priodol i reoli ymddygiad ac mae hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd wrth ddatblygu eu medrau addysgu.

26 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn ysgrifennu adborth defnyddiol sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu. Nid yw tua hanner y cyfranogwyr yn gosod targedau digon heriol ar gyfer disgyblion, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n fwy abl.

27 Yn eu haseiniadau prifysgol, mae cyfranogwyr yn gwneud cysylltiadau gwerthfawr rhwng llenyddiaeth ymchwil, gan gynnwys cyfeiriadau at system addysg Cymru, a'u haddysgu. Mae rhai cyfranogwyr yn darllen yn eang ac yn cysylltu theori ac arfer gyda lefel ragorol o ddealltwriaeth. Mae llawer o gyfranogwyr yn ysgrifennu'n dda, ac mae gan bob un ohonynt fedrau llythrennedd addas, er bod rhai ohonynt yn ei chael yn anodd cyrraedd y safonau disgwyliedig mewn ysgrifennu academaidd. Mae rhai ohonynt yn cynhyrchu aseiniadau o ansawdd uchel iawn. Trwy eu gwaith ysgrifenedig, mae llawer o gyfranogwyr yn dangos dealltwriaeth dda o gyd-destun yr ysgol y maent yn gweithio ynddi, ac yn arbennig, yn cydnabod anghenion penodol y disgyblion y maent yn eu haddysgu.

28 Yn eu dyddlyfrau myfyrio, mae cyfranogwyr yn cofnodi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ddatblygol o addysgu a dysgu mewn modd cynyddol feirniadol trwy gydol eu blwyddyn gyntaf. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dadansoddi eu haddysgu a dysgu disgyblion yn ddefnyddiol iawn ac yn dangos sut mae'r ffordd y maent yn darllen testunau addysgol allweddol yn gwneud gwahaniaeth i'w cynllunio a'u harfarnu. Mae lleiafrif o gyfranogwyr yn myfyrio'n llwyddiannus ar eu harfer yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn arfarnu eu haddysgu a dysgu disgyblion yn fedrus ac yn awgrymu ffyrdd perthnasol o ddatblygu eu harfer.

## Lles

29 Mae gan lawer o gyfranogwyr strategaethau i reoli eu baich gwaith yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o gyfranogwyr yn gweld bod gofynion y rhaglen yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd a'u lles. Yn benodol, caiff y cyfranogwyr hyn anawsterau yn rheoli terfynau amser ar gyfer eu haseiniadau academaidd ac wrth gynllunio eu gwersi. Ar y cyfan, mae'r anawsterau hyn yn codi oherwydd bod cyfranogwyr yn gosod disgwyliadau uchel iawn iddyn nhw eu hunain. Yn ystod blwyddyn gyntaf cynnal y rhaglen yng Nghymru, cafodd llawer o gyfranogwyr anawsterau hefyd oherwydd ymrwymiadau sylweddol o ran amserlen yr ysgol, er i hyn gael ei liniaru yn ail flwyddyn y rhaglen yn sgil cyfathrebu gwell rhwng y brifysgol, Teach First Cymru a'u hysgolion partner.

30 Mae rhai cyfranogwyr sy'n addysgu y tu hwnt i baramedrau eu pwnc gradd yn gweld bod gofynion ychwanegol datblygu eu gwybodaeth bwnc ochr yn ochr â'u medrau addysgu yn achosi cryn straen. Mae'r brifysgol wedi cynorthwyo'r cyfranogwyr hyn

yn dda trwy roi deunyddiau ychwanegol iddynt ddatblygu eu gwybodaeth, er bod hyn wedi cynyddu'r baich gwaith ar unigolion, ac mewn ychydig iawn o achosion, mae wedi achosi pryder ychwanegol.

31 Mae cyfranogwyr yn mynychu'n dda ac maent yn brydlon o ran cyrraedd rhannau'r rhaglen yn y brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain, ac yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn yr ysgol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

32 Mae llawer o gyfranogwyr yn cyfrannu'n dda at ddysgu allgyrsiol yn eu hysgolion, fel clybiau pwnc a chlybiau gwaith cartref, ac yn cynorthwyo disgyblion sy'n gweithio tuag at Wobr Dug Caeredin. Mae lleiafrif o gyfranogwyr yn ymgymryd yn dda â mentrau i gynorthwyo disgyblion mwy abl.

33 Mae cyfranogwyr yn glir ynghylch trefniadau diogelu ac yn deall sut i gymhwyso'r rhain yn yr ysgol.

34 Mae llawer o gyfranogwyr yn dangos y gallu i ddatblygu eu medrau arwain i gyfrannu at ddatblygu'r ysgol. Mae lleiafrif o gyfranogwyr wedi arwain dulliau newydd yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi cyfrannu at ddatblygiadau mewn dysgu digidol, neu wedi arwain gweithgor athrawon i wella profiadau ar gyfer disgyblion mwy abl.

## Cyrchfannau

35 Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen, cyflawnodd 25 o gyfranogwyr SAC. Nid aeth ychydig iawn o'r cyfranogwyr hyn ymlaen i ail flwyddyn y rhaglen.

36 Mae'r tabl isod yn dangos cyrchfannau'r 22 o gyfranogwyr a gwblhaodd ail flwyddyn y rhaglen, ym Medi 2015.

| | | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|
| Cyfranogwyr a gyflawnodd SAC | | 25 | 100% |
| Cyfranogwyr a gwblhaodd Flwyddyn 2 y rhaglen | | 22 | 88% |
| | | | |
| | Cyfranogwyr yn addysgu yng Nghymru ym Medi 2015 | 8 | 32% |
| | Cyfranogwyr mewn swyddi addysgu y tu allan i Gymru ym Medi 2015 | 10 | 40% |
| | Cyfranogwyr yn chwilio am swyddi addysgu ym Medi | * | * |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2015 | | |
| | Cyfranogwyr mewn swydd heblaw addysgu ym Medi 2015 | * | * |

Ffynhonnell: Teach First Cymru, 2015, heb ei chyhoeddi.

* ffigur sy’n llai na 5: mae’r ffigur hwn wedi cael ei ddileu i osgoi datgelu.

37 Roedd llawer o’r cyfranogwyr o’r garfan gyntaf a gyflawnodd SAC yn 2014 mewn swyddi addysgu ym Medi 2015, ddwy flynedd ar ôl dechrau rhaglen Teach First Cymru. Fodd bynnag, lleiafrif ohonynt yn unig sy’n addysgu yng Nghymru. Mae pob un o’r cyfranogwyr a gafodd swyddi addysgu y tu allan i Gymru yn addysgu yn Lloegr erbyn hyn. O’r rhain, symudodd llawer i Loegr oherwydd amgylchiadau personol. Mynegodd mwyafrif o gyfranogwyr eu bod yn dymuno datblygu eu gyrfa, a symudodd lleiafrif o gyfranogwyr allan o Gymru i’w galluogi i ddatblygu eu rolau arwain, fel dod yn bennaeth adran. Ni wnaeth ychydig iawn o ysgolion adnewyddu contractau eu cyfranogwyr oherwydd cyfyngiadau ariannol.

## Pa mor dda yw’r hyfforddiant a’r asesu yn y rhaglen yn y brifysgol?

38 Mae rhaglen Teach First Cymru (gweler atodiad 2) yn dechrau â’r ysgol haf sy’n cynnwys chwe wythnos o hyfforddiant wedi’i arwain gan y brifysgol. Mae cyfranogwyr yn gweithio yng nghampws Caerfyrddin PCDDS am bedair wythnos gyntaf yr ysgol haf, ac yn treulio’r pythefnos olaf mewn prifysgol yn Lloegr, lle maent yn cymryd rhan mewn hyfforddiant gyda chyfranogwyr o bob cwr o’r DU.

39 Yn ystod eu cyfnod yn PCDDS, caiff bron hanner yr amser hyfforddi ei dreulio yn yr ysgol. Yn wythnos dau y rhaglen, caiff cyfranogwyr brofiad ysgol pum niwrnod mewn ysgol y nodwyd bod ganddi arfer arweiniol ar sail y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion (system codau lliw a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i nodi ysgolion, sy’n amrywio o’r rhai y mae angen cymorth sylweddol arnynt i’r ysgolion hynny sy’n hynod effeithiol), neu y barnwyd eu bod yn rhagorol gan Estyn.

40 Yn 2015, gosodwyd cyfranogwyr mewn grwpiau mewn wyth ysgol effeithiol yn Ne Orllewin Cymru, fel y pennwyd gan y categoreiddio cenedlaethol. Mae hanner o’r ysgolion hyn wedi eu categoreiddio yn ysgolion hynod effeithiol (categori gwyrdd), a hanner yn ysgolion effeithiol (categori melyn).

41 At ei gilydd, mae’r profiad yn yr ysgol yn rhoi fforwm gwerthfawr i gyfranogwyr fyfyrio ar arfer bresennol mewn ysgolion, i ryngweithio ag uwch staff mewn ysgolion, ac ymarfer eu medrau addysgu mewn amgylchedd cefnogol.

42 Mae pob un o’r ysgolion yn darparu profiadau defnyddiol ar gyfer cyfranogwyr, sy’n cynnwys disgwyliadau craidd y rhaglen Teach First Cymru, ond hefyd yn caniatáu i’r ysgolion addasu’r profiadau y maent yn eu cynnig mewn ffordd sy’n dangos

strategaethau hynod effeithiol a ddefnyddir gan yr ysgol, er enghraifft arfer adferol (dull rheoli ymddygiad ar gyfer datrys gwrthdaro ac atal niwed).

43 Mae’r rhan fwyaf o’r sesiynau hyfforddi a ddarperir gan yr ysgolion yn berthnasol i anghenion cyfranogwyr ac yn cael eu cynllunio a’u cyflwyno’n dda gan staff mewn ysgolion. Mae llawer o sesiynau’n rhoi trosolwg defnyddiol i gyfranogwyr o’r ffyrdd y mae ysgolion effeithiol wedi ymateb i strategaethau cenedlaethol. Yn benodol, mae’r ysgolion yn darparu arweiniad gwerthfawr ar fynd i’r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion, a dulliau ymarferol o ymdrin â hyn. Nid yw rhai sesiynau’n eglur neu maent yn canolbwyntio’n ormodol ar brosesau a systemau ysgol, yn hytrach nag ar roi arweiniad ymarferol i’r cyfranogwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, collodd staff ysgolion gyfleoedd i roi gwybodaeth bwysig i gyfranogwyr am ddelio â gweithdrefnau diogelu.

44 Ar gyfer eu hail brofiad mewn ysgol, mae cyfranogwyr yn mynychu’r ysgolion y byddant yn gweithio ynddyn nhw yn ystod y mis Medi canlynol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ymgyfarwyddo â’r ysgol, ei disgyblion a’i chyd-destun, a thrafod eu cyfrifoldebau addysgu. Gwelodd lleiafrif o uwch arweinwyr mewn ysgolion fod trefnu profiad cynhyrchiol ar gyfer cyfranogwyr ar ddiwedd tymor yr haf yn hynod heriol, a mynegwyd pryder ganddynt nad yw cyfranogwyr yn gallu cael digon o brofiad o arfer ystafell ddosbarth.

45 Mae’r sesiynau hyfforddi prifysgol yn PCDDS yn rhoi sylw da i faterion cyfoes mewn addysgu a dysgu yng Nghymru, ac mae tiwtoriaid yn darparu syniadau a strategaethau defnyddiol ar gyfer addysgu. Mae rhai sesiynau’n canolbwyntio’n ormodol ar theori, ac nid yw tiwtoriaid yn darparu digon o gyfleoedd i gyfranogwyr ddefnyddio eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth.

46 Yn y sesiynau pwnc gorau, mae tiwtoriaid yn holi cyfranogwyr yn effeithiol ac yn darparu lefel uchel o her a chyfleoedd da ar gyfer myfyrio. Mae tiwtoriaid yn darparu modelau addysgu a dysgu da ar gyfer cyfranogwyr, ac yn eu helpu i ystyried theori ochr yn ochr ag arfer ystafell ddosbarth. Mewn rhai sesiynau, nid yw’r bwriadau dysgu’n ddigon clir ac nid yw cyfranogwyr yn canolbwyntio ar yr agweddau pwysicaf a fydd yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu medrau addysgu ac yn eu gwybodaeth am y modd y mae disgyblion yn dysgu.

47 Yn hyfforddiant yr ysgol haf yn y brifysgol yn Lloegr, mae gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth bwnc dda ac maent yn annog cyfranogwyr i rannu eu syniadau a’u cwestiynau. Yn gyffredinol, caiff sesiynau pwnc eu cynllunio’n dda ac maent yn cynnwys deunydd priodol ar y lefel gywir. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig her addas i’r cyfranogwyr. Fodd bynnag, o fewn meysydd pwnc, mae’r sesiynau hyn yn amrywio gormod o ran ansawdd a chynnwys, ac nid ydynt yn defnyddio dull cyson o ddatblygu addysgeg pwnc cyfranogwyr.

48 Mae cynhadledd ysgol haf y brifysgol yn Lloegr yn darparu ystod sylweddol o ddewisiadau i gyfranogwyr ymgysylltu â materion cyfredol mewn addysgu a dysgu. Mae’r rhan fwyaf o gyflwynwyr yn arbenigwyr yn eu maes, ac yn cyflwyno profiadau dysgu sy’n ysgogi’r meddwl. Mae cyfranogwyr o Gymru yn elwa ar fod yn rhan o garfan gyfan Teach First yn Lloegr, ac o allu rhannu eu barn gyda grŵp ehangach o

bobl. Fodd bynnag, nid yw'r sesiynau yn Lloegr yn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau yn system addysg Cymru yn ddigon da.

49 Er bod cyfranogwyr yn elwa ar sesiynau difyr ac ysbrydoledig ar eu gorau, nid yw hyfforddiant yr ysgol haf yn canolbwyntio'n ddigon da ar y medrau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfranogwyr i fod yn 'barod ar gyfer yr ystafell ddosbarth'. Yn benodol, nid yw llawer o ysgolion a chyfranogwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant wedi rhoi digon o gyngor iddynt am strategaethau, a phrofiad ohonynt, i ddelio ag ymddygiad heriol.

50 Mae diwrnodau astudiaethau pwnc a gynhelir trwy gydol blwyddyn un y rhaglen yn ddefnyddiol i gyfranogwyr ddatblygu syniadau a gwella eu cynllunio. Mae llawer o'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu agweddau penodol ar addysgu a dysgu, fel llythrennedd ar draws y cwricwlwm, strategaethau ar gyfer disgyblion mwy abl, a datblygu medrau creadigol a medrau datrys problemau mewn gwersi. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid yn cynllunio ystod dda o weithgareddau ysgogol. Fodd bynnag, gan fod y sesiynau hyn wedi eu trefnu yn bennaf mewn grwpiau pwnc, caiff syniadau cyfranogwyr eu cyfyngu weithiau naill ai gan nifer fach o gyfranogwyr yn y grŵp, neu gan ddiffyg safbwyntiau amrywiol o fewn y grŵp.

51 Cynhelir rhai o'r sesiynau hyfforddi hyn yn yr ysgol, ac maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iawn i gyfranogwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn yr ysgol, trwy arsylwi ymarferwyr profiadol neu drwy ddefnyddio adnoddau yn yr ysgol, er enghraifft offer digidol.

52 Mae cyfranogwyr yn elwa ar sesiynau 'Sadwrn Gwych' ('Super Saturday') allgyrsiol, a gynhelir bedair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn y digwyddiadau hyn yn amrywiol, ac mae cyfranogwyr yn mynychu pan fyddant yn canfod bod gwerth y cynnwys yn uniongyrchol berthnasol i'w cynnydd.

53 Mae aseiniadau ysgrifenedig yn darparu ystod eang o gyfleoedd defnyddiol i gyfranogwyr roi eu haddysgu yn ei gyd-destun. Mae tiwtoriaid wedi datblygu deunyddiau cymorth i helpu cyfranogwyr i gynllunio a chynhyrchu aseiniadau gwell, ac mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith ysgrifenedig cyfranogwyr.

54 At ei gilydd, mae'r marcio gan diwtoriaid yn deg a thrylwyr, ac yn galluogi cyfranogwyr i wneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio meini prawf asesu yn dda i roi adborth ffurfiannol gwerthfawr i gyfranogwyr. At ei gilydd, mae marcio tiwtoriaid yn helpu cyfranogwyr i wella eu medrau llythrennedd, ond mewn rhai achosion, nid yw tiwtoriaid yn cywiro camgymeriadau llythrennedd cyfranogwyr yn drylwyr nac yn cynorthwyo cyfranogwyr yn ddigon da i ddatblygu eu medrau ysgrifennu academaidd.

55 Ceir prosesau systematig i safoni gwaith ysgrifenedig cyfranogwyr. Mae dulliau cydweithredol o asesu a safoni gyda thiwtoriaid o raglen TAR PCCDS wedi helpu i wella arfer asesu.

## Pa mor dda yw'r hyfforddiant a'r asesu yn y rhaglen mewn ysgolion?

56 Mae perthynas gref rhwng ansawdd y mentora a'r cynnydd a wna cyfranogwyr.

57 Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn fentoriaid profiadol i hyfforddeion TAR. Mae lleiafrif o fentoriaid wedi addasu eu harfer yn dda i deilwra eu mentora yn unol ag anghenion penodol cyfranogwyr RhHYR. Er enghraifft, mae lleiafrif o fentoriaid yn gweithio'n effeithiol gyda chyfranogwyr i'w helpu i gynllunio gwersi, ac wrth gynllunio cyfres o wersi, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynnydd cyfranogwyr, ac wrth eu helpu i reoli eu baich gwaith.

58 Caiff llawer o gyfranogwyr gymorth personol gan yr ysgol sy'n eu helpu i addasu yn unol â bywyd yr ysgol. Maent yn darparu cyfleoedd da i'r cyfranogwr ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destun ehangach yr ysgol ac agweddau eraill ar waith yr ysgol.

59 Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn rhoi cyfleoedd da i gyfranogwyr fod yn greadigol yn eu cynllunio a'u haddysgu.

60 Mae tua hanner y mentoriaid yn asesu cynnydd cyfranogwyr yn yr ysgol yn gywir a theg. Maent yn darparu adborth manwl sy'n helpu cyfranogwyr i wneud cynnydd da. Fodd bynnag, mae tua hanner y mentoriaid yn darparu adborth sy'n rhy hael, yn rhy arwynebol, neu nid yw'n canolbwyntio ddigon ar y cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi. Nid yw'r mentoriaid hyn yn rhoi targedau digon heriol i gyfranogwyr, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu cyfranogwyr i gyflawni eu llawn botensial.

61 Mae lleiafrif o fentoriaid yn ansicr ynglŷn â'r graddio y dylent ei ddefnyddio gyda chyfranogwyr yn yr ysgol, yn enwedig ynghylch y graddio cynyddol o ran cynnydd cyfranogwyr mewn adroddiadau crynodol.

62 Mewn llawer o ysgolion, mae mentoriaid proffesiynol a mentoriaid sy'n gyfrifol am wahanol bynciau yn trafod cynnydd cyfranogwyr, ac mae hyn yn eu helpu i roi adborth defnyddiol i hyfforddeion. Mewn rhai ysgolion, mae mentoriaid yn safoni asesiadau yn fewnol yn yr ysgol, trwy arsylwi cyfranogwyr heblaw'r rheiny y mae ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt, a thrwy gyd-drafod eu hasesiadau ysgrifenedig. Mae hyn yn helpu mentoriaid yn eu harfer asesu, ond maent yn ansicr o hyd ynghylch p'un a yw eu barnau'n gyson â barnau ysgolion eraill.

63 Mae arsylwadau ar y cyd rhwng tiwtoriaid prifysgol a mentoriaid ysgol wedi helpu mentoriaid i asesu cynnydd cyfranogwyr yn gywir mewn mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, canfu mentoriaid fod arsylwadau'n digwydd yn rhy hwyr yn y flwyddyn i effeithio ar eu harfer.

64 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio eu profiad blaenorol o fentora gydag athrawon dan hyfforddiant i ddarparu rhaglen hyfforddi ar gyfer cyfranogwyr, sy'n cwmpasu ystod o agweddau ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ysgolion ddealltwriaeth ddigon da o fodel hyfforddiant Teach First Cymru i gynorthwyo cyfranogwyr i gyflawni eu potensial, ac nid yw llawer o fentoriaid yn

gwybod beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael ag anghenion penodol y cyfranogwyr, ac mae'n rhaid iddynt ddatblygu eu strategaethau ystafell ddosbarth yn gyflymach nag athrawon confensiynol dan hyfforddiant.

65 Mewn rhai ysgolion, nid oes gan adrannau pwnc y capasiti i gynorthwyo cyfranogwyr yn effeithiol oherwydd gwendidau mewn arwain ac addysgu pynciau. Yn yr adrannau gwannach hyn, nid yw mentoriaid yn monitro gwaith disgyblion yn ddigon gofalus. Nid ydynt yn nodi gwendidau yn eu harfer eu hunain ac ni allant wella agweddau ar addysgu'r cyfranogwyr.

66 Mae cyfranogwyr yn gweld yr wythnosau cyntaf yn eu hysgolion yn heriol iawn. Mae digwyddiadau datblygu mentoriaid a dogfennau Teach First Cymru yn pwysleisio bod angen 'cymorth arbennig' ar gyfranogwyr yn ystod y tymor cyntaf, er nad yw mentoriaid yn cael arweiniad penodol ar gyfer sut gallai'r cymorth hwn weithio yn ymarferol. Mae hyn yn golygu bod gormod o amrywioldeb ym mhrofiadau cyntaf cyfranogwyr o addysgu yn eu hysgolion lleoli.

67 Mae rhai ysgolion wedi datblygu dulliau mentora sy'n cynorthwyo cyfranogwyr yn dda yn ystod yr wythnosau cyntaf wedi iddynt ddechrau ar eu swydd, er enghraifft trwy helpu cyfranogwyr i symud tuag at amserlen lawn yn raddol. Maent wedi datblygu rhaglen ymsefydlu strwythuredig i gynorthwyo cyfranogwyr yn ystod eu hanner tymor cyntaf yn yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn wedi caniatáu amser ychwanegol i fentoriaid ddarparu cymorth cynyddol i'r cyfranogwyr ac wedi defnyddio strategaethau fel addysgu tîm i feithrin hunansicrwydd ymhlith cyfranogwyr, ac adeiladu eu medrau yn yr ystafell ddosbarth, neu drwy greu dosbarthiadau llai. Mae hyn wedi helpu cyfranogwyr i ddatblygu eu cynllunio a'u haddysgu ac archwilio ystod ehangach o strategaethau, yn enwedig o ran rheoli ymddygiad. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder, cynnydd a lles cyfranogwyr.

68 Mae mwyafrif o fentoriaid yn darparu cyfleoedd i gyfranogwyr weithio gydag athrawon newydd gymhwyso neu athrawon dan hyfforddiant yn yr ysgol o gyrsiau TAR eraill. Mae cyfranogwyr yn gweld hyn yn fuddiol a chefnogol.

## Beth yw'r effaith ar yr ysgol, yr adran a'r disgyblion?

69 Gweledigaeth Teach First yw 'na ddylai cynnydd addysgol unrhyw blentyn gael ei gyfyngu gan ei gefndir economaidd gymdeithasol'. Un o ddibenion canolog rhaglen Teach First Cymru yw rhoi i gyfranogwyr yr offer a'r cyfleoedd datblygiadol sydd eu hangen arnynt i gael yr effaith fwyaf posibl ar gydraddoldeb addysgol. Mae'r rhaglen yn nodi pum nod, sef:

- Lleihau'r bwlch mewn llythrennedd a rhifedd yn yr ysgol gynradd
- Lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad TGAU yn yr ysgol uwchradd
- Sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu cryfderau allweddol, gan gynnwys cadernid a lles, i gefnogi dyheadau allweddol
- Lleihau'r bwlch yng nghyfran y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg bellach neu hyfforddiant cyflogaeth ar ôl gorffen eu cwrs TGAU
- Lleihau'r bwlch mewn graddio o brifysgol, gan gynnwys o'r 25% o brifysgolion mwyaf dethol, gan 8% (Teach First/Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Teach

First: Working Together on the Teach First Programme: a guide to key roles, responsibilities, and activities for school mentors supporting Teach First participants towards the goal of QTS 2015)

70 At ei gilydd, prin yw'r dystiolaeth gadarn i ddangos bod y bartneriaeth yn y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol, yr adran neu'r disgyblion. Mewn mwyafrif o adrannau lle mae cyfranogwyr wedi addysgu am ddwy flynedd, mae perfformiad disgyblion mewn TGAU wedi gwella. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn priodoli'r gwelliannau hyn yn uniongyrchol i effaith y cyfranogwyr. Caiff llawer o'r ysgolion hyn eu cefnogi gan Her Ysgolion Cymru (menter a ariennir gan Lywodraeth Cymru i wella cyflawniad yn y 40 o'r ysgolion uwchradd mwyaf heriol yng Nghymru) ac, fel rhan o'r fenter hon, maent yn defnyddio nifer o strategaethau i wella cyrhaeddiad disgyblion. Mewn lleiafrif o adrannau, mae safonau mewn TGAU wedi dirywio.

71 Mae cyfranogwyr yn defnyddio nifer o ddulliau a gynlluniwyd i fesur effaith addysgu cyfranogwyr ar gyrhaeddiad disgyblion. Mae pob cyfranogwr yn dewis dosbarth yn ffocws ar gyfer prosiect ymchwil ar raddfa fach. Maent yn nodi eu nod, neu'u 'gweledigaeth' ar gyfer y dosbarth hwn, er enghraifft bod disgyblion yn gwella eu hyder neu'u cadernid, ac yn ystyried effaith eu strategaethau addysgu a dysgu o ran cyflawni'r nod hwn. Mae cyfranogwyr yn defnyddio'r 'olrheiniwr cynnydd disgyblion' (system wybodaeth sy'n dadansoddi data perfformiad disgyblion), ac offeryn arolwg 'iKnowMyClass' (holiadur sydd wedi'i gynllunio i gael gwybod am ddyheadau a chymhellion disgyblion).

72 Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn defnyddio canlyniadau'r dadansoddiad i nodi'r cynnydd a wnaed gan grwpiau o ddisgyblion, ac mae llawer ohonynt yn myfyrio'n feddylgar ar y gwelliannau a wnaed gan eu dosbarth, ac yn arfarnu eu dulliau addysgu'n dda. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw cyfranogwyr yn rhannu canlyniadau dadansoddiad yr olrheiniwr disgyblion gyda'u hysgolion ddigon. Mae hyn yn lleihau trylwyredd y dadansoddiad, a chan nad yw staff yr ysgol yn cael eu cynnwys ddigon yn y drefn hon i gasglu a gwirio data, mae'r effaith ar ysgolion yn gyfyngedig.

73 Caiff llawer o gyfranogwyr effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae ganddynt berthynas dda â'r disgyblion y maent yn eu haddysgu ac yn eu cynorthwyo'n dda y tu allan i oriau gwersi, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer arholiadau ac wrth gwblhau gwaith cartref. Mae rhai cyfranogwyr wedi cynorthwyo disgyblion mwy abl yn dda trwy glybiau allgyrsiol.

74 Dywed mwyafrif yr ysgolion fod y cyfranogwyr wedi dod â syniadau newydd i'r adran y maent yn gweithio ynddi. Dywed lleiafrif o ysgolion fod eu cyfranogwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a pherfformiad rhai grwpiau bach o ddisgyblion yn y dosbarthiadau y maent yn eu haddysgu, fel disgyblion sydd wedi ymddieithrio, bechgyn a disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY) iddynt. Mae rhai adrannau wedi gweld bod cyfranogwyr yn herio arfer sefydledig ac yn dod â syniadau newydd i addysgu a chynlluniau gwaith.

75 Mae tua hanner yr ysgolion yn cyflogi cyfranogwyr Teach First Cymru fel aelodau ychwanegol yn yr adrannau y maent yn hyfforddi i addysgu ynddynt. Mae'r trefniant hwn yn rhyddhau adnodd sy'n galluogi aelodau eraill o staff i dreulio mwy o amser ar eu dyletswyddau arwain, er enghraifft wrth gydlynu llythrennedd a rhifedd ar draws yr

ysgol, neu i rannu dosbarthiadau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr ysgol wedi arfarnu'r dulliau hyn yn llawn eto.

76 Mae llawer o ysgolion yn hapus â safon eu cyfranogwyr. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae penaethiaid wedi cael anawsterau wrth benodi staff, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac wedi gweld bod y RhHYR wedi darparu cyfle defnyddiol i gyflogi athrawon hynod gymwys yn y swyddi hyn.

## Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth y Rhaglen RhHYR?

### Cyfathrebu

77 Mae gan bawb ddealltwriaeth glir o weledigaeth a gwerthoedd cyffredinol Teach First Cymru. Mae hyn yn gryfder yn y rhaglen gan ei fod yn rhoi diben a chyfeiriad i ysgolion, staff y rhaglen a chyfranogwyr.

78 Mae bron pob ysgol yn ymwybodol o'r rhan fwyaf o ofynion gweithredol y rhaglen. Mae dogfennau'r rhaglen yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall, yn fras, y rolau a gyflawnir gan diwtoriaid a mentoriaid. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn ansicr ynglŷn â threfniadaeth ymweliadau tiwtoriaid â'r ysgol, ac nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall rôl y Swyddog Datblygu Arweinyddiaeth yn llawn. Yn ystod ymweliadau ysgol, prin yw'r cyswllt rhwng tiwtoriaid Teach First Cymru, tiwtoriaid prifysgol a mentoriaid ysgol. Mae hyn yn tanseilio'r bartneriaeth ac yn cyfyngu ar ddatblygu dull cydlynus i gynorthwyo cyfranogwyr.

79 Mewn rhai achosion, nid yw arweinwyr y rhaglen wedi rhoi sylw digon manwl i wahanol amgylchiadau ysgolion partner. Mae rhai ysgolion, fel y rheiny sy'n wynebu newidiadau mawr, fel uno, wedi cael anawsterau â chynorthwyo cyfranogwyr. Cyfyngedig fu'r prosesau partneriaeth i ymdopi â'r sefyllfaoedd hyn.

### Hyfforddi a datblygu mentoriaid

80 I ddechrau, nid oedd hyfforddiant mentoriaid yn cael ei drefnu'n ddigon da i roi dealltwriaeth i ysgolion o sut gallent gynorthwyo cyfranogwyr i gyflawni eu potensial, ac nid oedd cofnodion cyfarfodydd bob amser yn cael eu hanfon i ysgolion. Roedd hyn yn golygu nad oedd ysgolion yn gallu cynorthwyo cyfranogwyr yn ddigon da yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen.

81 Yn ystod ail flwyddyn y rhaglen, fe wnaeth staff o PCCDS a Teach First Cymru wella cynnwys digwyddiadau hyfforddi mentoriaid, a'r ffordd y cânt eu cyflwyno. Roedd y digwyddiad rhagarweiniol i hyfforddi mentoriaid ar gyfer mentoriaid pwnc a mentoriaid proffesiynol yn ffordd ddefnyddiol o fyfyrio ar gryfderau a gwendidau blwyddyn gyntaf y rhaglen. Cyflwynodd staff farn cyfranogwyr ar eu hyfforddiant ac fe wnaethant gynnwys cyflwyniadau gan gyfranogwyr. Rhoddodd hyn gipolwg gwerthfawr i fentoriaid newydd ar y modd y mae rhaglen Teach First Cymru yn

wahanol i raglenni TAR traddodiadol, ac ar anghenion penodol cyfranogwyr Teach First Cymru. Fodd bynnag, er bod staff yn pwysleisio bod angen i gyfranogwyr gael 'cymorth arbennig' yn ystod wythnosau cyntaf eu hyfforddiant, ni chafodd hyn ei fynegi'n llawn. Hefyd, nid yw'r hyfforddiant yn darparu enghreifftiau penodol o ble mae ysgolion wedi mentora cyfranogwyr yn llwyddiannus yn ystod hanner tymor cyntaf eu lleoliadau ysgol. Mae ysgolion yn ansicr o hyd ynglŷn â sut i arfarnu effaith y rhaglen RhHYR, ac mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio strategaethau hirdymor i wella deilliannau ar gyfer disgyblion.

82 Mae Teach First Cymru a staff o PCDDS wedi gweithio i ddatblygu ansawdd a threfniadaeth sesiynau hyfforddi mentoriaid dros ddwy flynedd gyntaf y rhaglen. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi mentoriaid wedi gwella, er bod rhai ysgolion wedi cael anawsterau yn rhyddhau mentoriaid i fynychu hyfforddiant i fentoriaid, yn enwedig pan fydd gan yr ysgol nifer o gyfranogwyr.

83 Mae digwyddiadau hyfforddi yn fforwm da i fentoriaid rannu syniadau am gynorthwyo cyfranogwyr a chydymffurfio â gofynion eu rôl. Mae tiwtoriaid yn cynllunio sesiynau i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mentoriaid o fentora trwy gyflwyno ymchwil berthnasol. Fodd bynnag, nid yw tiwtoriaid yn cynnwys mentoriaid yn ddigon da mewn trafodaethau am arfer mentora, ac nid oes digon o ffocws mewn sesiynau mentoriaid ar fedrau mentora, gosod targedau, a'r angen i herio cyfranogwyr i gyflawni rhagoriaeth.

84 Mae Teach First Cymru, mewn cydweithrediad â PCDDS a mentoriaid mewn dwy o'i hysgolion partneriaeth, wedi llunio arweiniad defnyddiol ar gyfer mentoriaid. Mae hyn yn cynnwys canllaw fesul wythnos i weithgareddau hyfforddi y dylai mentoriaid eu gwneud â'u cyfranogwyr yn yr ysgol. Mae'r canllaw hefyd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau y mae gwahanol bartneriaid yn ymgymryd â nhw. Fodd bynnag, nid yw'r llyfryn arweiniad yn esbonio'n ddigon da beth yn union y dylai cyfranogwyr ei wybod a gallu ei wneud yn dilyn yr ysgol haf, ac nid yw'n rhoi digon o fanylion ar ddisgwyliadau datblygu arweinyddiaeth, nac yn esbonio'n ddigon da sut y dylid casglu a dadansoddi data i ddangos effaith. Nid oes digon o fanylion yn yr arweiniad ynglŷn â sut i gynorthwyo cyfranogwyr yn ystod wythnosau cyntaf eu lleoliad ysgol.

85 Mae lleiafrif o fentoriaid wedi elwa ar gymryd rhan mewn rhaglen datblygu mentoriaid achrededig a gynhelir gan y brifysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith yr hyfforddiant hwn ar safonau cyfranogwyr.

## Hunanarfarnu

86 Mae Teach First Cymru a PCCDS wedi sefydlu sawl proses ar gyfer sicrhau ansawdd a hunanarfarnu. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau safoni mewnol ar gyfer canlyniadau cyfranogwyr, adborth gan gyfranogwyr, staff a mentoriaid y rhaglen, ac arholiadau allanol.

87 Mae staff y rhaglen yn monitro cynnydd cyfranogwyr yn briodol. Cyflawnir hyn trwy graffu ar hunanarfarniad cyfranogwyr yn erbyn y Safonau ar gyfer SAC, asesiadau ffurfiannol a chrynodol o gyfranogwyr yn addysgu mewn ysgol, a dadansoddiad gofalus o gynnydd cyfranogwyr mewn aseiniadau ysgrifenedig. Mae bwrdd adolygu mewnol yn darparu fforwm gwerthfawr ar gyfer mentoriaid, tiwtoriaid a swyddogion

datblygu arweinyddiaeth i drafod cynnydd cyfranogwyr unigol a nodi prosesau i wella datblygiad cyfranogwyr.

88 Mae adroddiad hunanarfarnu’r rhaglen yn ddogfen ddefnyddiol sy’n dod â thystiolaeth at ei gilydd o graffu mewnol ac allanol ar y rhaglen. Mae’r adroddiad yn arfarnol yn bennaf, er ei fod yn rhy ddisgrifiadol o ran prosesau mewn rhai achosion, ac nid yw’n darparu dadansoddiad digon trylwyr o ddata. Nid yw prosesau hunanarfarnu yn gwneud defnydd digon da o wybodaeth o dystiolaeth uniongyrchol o hyfforddiant yn yr ysgol ac yn y brifysgol, yn arbennig am ansawdd yr asesu yn yr ysgol.

89 Mae arweinwyr y rhaglen yng Nghymru wedi gwrando ar farn ysgolion, cyfranogwyr a thiwtoriaid, ac wedi gwneud newidiadau i ddarpariaeth y rhaglen mewn llawer o achosion. Mae asesu aseiniadau, hyfforddiant i fentoriaid, a chynnwys yr ysgol haf i gyd wedi gwella yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Fodd bynnag, erys rhai agweddau pwysig i’w datblygu, fel y cymorth a gynigir i gyfranogwyr yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn addysgu ac wrth ddatblygu dulliau cyfranogwyr o reoli ymddygiad a chynllunio gwersi, ac mae’r meysydd hyn yn parhau i gael effaith negyddol ar gynnydd lleiafrif o gyfranogwyr.

90 Mae arweinwyr wedi gwneud newidiadau i dîm y rhaglen sydd wedi gwella ansawdd hyfforddiant yn y brifysgol a chymorth i gyfranogwyr yn yr ysgol. Mae gan bob un o’r tiwtoriaid gymwysterau addas, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion addysgol cyfredol.

## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Ymwelodd arolygwyr â 26 ysgol yn nhymor yr haf 2014, tymor yr hydref 2014, a thymor yr haf 2015.

Fe wnaethom arsylwi:

- Deuddeg o gyfranogwyr yng ngharfan un ym mlwyddyn gyntaf eu rhaglen
- Deuddeg o gyfranogwyr yng ngharfan un yn ail flwyddyn eu rhaglen
- Deg o gyfranogwyr yng ngharfan dau ym mlwyddyn gyntaf eu rhaglen

Cynhaliodd arolygwyr gyfweliadau â phenaethiaid, mentoriaid proffesiynol a mentoriaid pwnc yn yr ysgol, arweinwyr rhaglen Teach First a PCDDS, a chyfranogwyr.

Fe wnaethom arsylwi:

- Hyfforddiant prifysgol yn PCDDS
- Sesiynau yn yr ysgol haf a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Leeds
- Sesiynau astudiaethau pwnc
- Sesiynau hyfforddi mentoriaid
- Sesiynau hyfforddi mentoriaid proffesiynol

Craffodd arolygwyr ar y dogfennau canlynol:

- Aseiniadau cyfranogwyr
- Dogfennau cynllunio Teach First Cymru
- Deunyddiau hyfforddi a llawlyfrau rhaglen Teach First Cymru
- Dogfennau a llawlyfrau hyfforddi mentoriaid Teach First Cymru
- Hunanarfarniad Teach First Cymru a dogfennau cynllunio ar gyfer gwelliant
- Adroddiadau Teach First Cymru i Lywodraeth Cymru

<u>Rhestr gyfeiriadau</u>

Cyngor y Gweithlu Addysg (2015), neges e-bost at yr awdur, 9 Chwefror. Gohebiaeth bersonol.

Teach First Cymru (2015), Ambassador destinations of the 2013 cohort. Heb ei gyhoeddi.

Teach First a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (2015) Teach First - Working Together on the Teach First Programme: a guide to key roles, responsibilities, and activities for school mentors supporting Teach First participants towards the goal of QTS 2015. Heb ei gyhoeddi.

## Atodiad 2

### Rhaglen Teach First Cymru

**Ymgeisio ac asesu**

- Cofrestru
- Archwilio gwybodaeth bwnc
- Prawf medrau proffesiynol
- Gwaith paratoi cyfranogwyr

**Ysgol Haf**

- **Wythnos un:** astudiaethau prifysgol (astudiaethau proffesiynol ac astudiaethau pwnc), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- **Wythnos dau:** profiad ysgol pum niwrnod mewn ysgol dda neu ragorol mewn ardal economaidd ddifreintiedig
- **Wythnos tri:** profiad addysgu pedwar diwrnod mewn ysgolion lleoli (lle bydd cyfranogwyr yn cael eu cyflogi trwy gydol eu cyfnod ar y rhaglen) ac un diwrnod o astudiaethau pwnc yn y brifysgol
- **Wythnos pedwar:** astudiaethau prifysgol (astudiaethau proffesiynol ac astudiaethau pwnc), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- **Wythnosau pump a chwech:** astudiaethau prifysgol gyda chyfranogwyr o bob cwr o'r DU mewn lleoliad prifysgol canolog

**Addysgu yn yr ysgol – blwyddyn un, sy'n arwain at ddyfarnu TAR ar ddiwedd y flwyddyn (gan gynnwys 60 credyd ar lefel meistr)**

- Addysgu amserlen 80%
- Cyfarfodydd wythnosol gyda'r mentor pwnc yn cefnogi hyfforddiant parhaus
- Ymweliadau rheolaidd gan y tiwtor pwnc
- Arfarnu gwersi gan y tiwtor prifysgol (o leiaf ddau bob tymor)
- Arfarnu gwersi gan y mentor proffesiynol (o leiaf un bob tymor)
- Arfarnu gwersi gan y mentor pwnc (o leiaf un bob hanner tymor)
- Ymweliadau gan diwtor proffesiynol Teach First Cymru
- Hyfforddiant a chymorth wedi eu darparu gan y swyddog datblygu arweinyddiaeth

- Ail brofiad ysgol: cyfwerth â phum niwrnod o brofiad datblygiad proffesiynol mewn ysgol arall, a threulio un diwrnod ychwanegol mewn ysgol gynradd, gan ganolbwyntio ar bontio o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3
- Chwe diwrnod o hyfforddiant astudiaethau pwnc gyda'r tiwtor pwnc, a gynhelir ar ddiwrnodau ysgol, mewn grwpiau pwnc
- Un wythnos ryng-garfan yn yr ysgol haf
- Cwblhau aseiniadau ysgrifenedig a dyddlyfr myfyriol
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau hyfforddi 'Sadwrn Gwych' ('Super Saturday')

**Addysgu mewn ysgol fel athro newydd gymhwyso (ANG) – blwyddyn dau**

- Ymweliadau a chymorth parhaus gan y swyddog datblygu arweinyddiaeth
- Cymorth parhaus gan fentoriaid pwnc yn yr ysgol
- Cyfleoedd i fynychu digwyddiadau hyfforddi 'Sadwrn Gwych'
- Paratoi ar gyfer gweithgarwch fel llysgennad Teach First, gan gynnwys cyngor gyrfaoedd addysgol a chynllunio i gefnogi gwaith Teach First i wella ysgolion

**Bod yn llysgennad i Teach First**

Mae Teach First yn cefnogi eu llysgenhadon i fod yn rhan o rwydwaith o unigolion sy'n cefnogi nod Teach First i roi diwedd ar anghydraddoldeb addysgol.

## Rolau a chyfrifoldebau rhaglen Teach First Cymru

### Tiwtor proffesiynol

Mae tiwtoriaid proffesiynol prifysgol yn gweithio gyda chyfranogwyr trwy gydol blwyddyn un y rhaglen. Maent yn cynnal arsylwadau ffurfiol trwy gydol blwyddyn un, gan gynnwys arsylwadau ar y cyd â mentoriaid, fel y bo'n briodol. Maent yn trefnu cymorth ychwanegol ar gyfer cyfranogwyr sy'n cael anawsterau. Mae tiwtoriaid proffesiynol yn goruchwylio paratoi ac asesu aseiniadau ysgrifenedig. Maent yn cynorthwyo mentoriaid proffesiynol â'u cyfrifoldebau, ac yn goruchwylio sicrhau ansawdd hyfforddiant a chymorth yn yr ysgol ym mlwyddyn un y rhaglen.

### Tiwtor pwnc

Mae tiwtoriaid pwnc prifysgol yn ymweld â chyfranogwyr yn rheolaidd ac yn cwblhau arsylwadau ffurfiol o addysgu cyfranogwyr ym mlwyddyn un y rhaglen. Gellir cynnal rhai o'r arsylwadau hyn ar y cyd â mentoriaid. Mae tiwtoriaid pwnc yn cynorthwyo mentoriaid pwnc â'u cyfrifoldebau. Maent yn asesu cynnydd cyfranogwyr tuag at fodloni'r safonau ar gyfer SAC yn ystod blwyddyn un y rhaglen, ac yn argymell dyfarnu SAC ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Mae tiwtoriaid pwnc yn darparu rhaglen o ddiwrnodau hyfforddiant penodol i bwnc trwy gydol yr ysgol haf a chwe diwrnod hyfforddiant pwnc ychwanegol trwy gydol blwyddyn un y rhaglen.

### Mentor proffesiynol

Mae mentoriaid proffesiynol fel arfer yn uwch arweinwyr mewn ysgolion sy'n gweithio gyda chyfranogwyr dros ddwy flynedd y rhaglen. Maent yn cydlynu'r cymorth yn yr ysgol ar gyfer cyfranogwyr ac yn cynnal datblygiad proffesiynol wythnosol ar gyfer cyfranogwyr ym mlwyddyn un, ac yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i gyfranogwyr ym mlwyddyn dau. Maent yn arsylwi cyfranogwyr yn ffurfiol unwaith y tymor ac yn safoni asesiadau tymhorol cyfranogwyr ym mlwyddyn un y rhaglen.

### Mentor ysgol

Mae mentoriaid ysgol yn arwain yr hyfforddiant a'r cymorth pwnc yn yr ysgol ar gyfer cyfranogwyr trwy gydol dwy flynedd y rhaglen. Maent yn darparu datblygiad proffesiynol ac yn arsylwi gwersi yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ac yn asesu cynnydd cyfranogwyr tuag at fodloni'r Safonau ar gyfer SAC.

### Swyddog datblygu arweinyddiaeth

Caiff swyddogion datblygu arweinyddiaeth eu cyflogi gan Teach First i weithio gyda chyfranogwyr i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu disgyblion, a darparu cymorth datblygiadol pwrpasol i alluogi cyfranogwyr i weithio tuag at eu gweledigaeth ar draws dwy flynedd y rhaglen. Maent yn cynorthwyo cyfranogwyr i ddatblygu eu medrau arwain trwy eu harfer ystafell ddosbarth.

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis | Awdur yr adroddiad cylch gwaith |
| Ceri Jones | Tîm yr arolwg |
| Delyth Gray | Tîm yr arolwg |
| Lowri Jones | Tîm yr arolwg |
| Penny Lewis | Tîm yr arolwg |
| Rob Davies | Tîm yr arolwg |
| Steve Pringle | Tîm yr arolwg |
| Tony Sparks | Tîm yr arolwg |